



Farmwise: Your essential guide to health and safety in agriculture MISC165 HSE Books 1999 (AM DDIM)

Atal damweiniau i blant ar ffermydd AS10W(rev2) HSE Books 2000 (AM DDIM)

5 cam i asesu risgiau INDG163(rev1) HSE Books 2003 (AM DDIM)

Young workers and the law: A T&G guide T&G Young Members Forum TGWU 2003 (AM DDIM)

Safe! Helping children to stay safe on the farm ISBN 0 7176 2196 0 VHS-PAL 14 Munud HSE Books 2003 £20.00 +TAW

Mae cyhoeddiadau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) ar gael trwy archeb bost oddi wrth HSE Books, PO Box Post 1999, SUDBURY, Suffolk CO10 2WA. Ffôn: 01787 881165, Ffacs: 01787 313995, Gwefan: www.hsebooks.co.uk ac www.hse.gov.uk

Mae cyhoeddiad y TGWU ar gael oddi wrth y T&G National Young Members Forum. Cysylltwch â Sharon Graham, National Secretary for Youth & Development, Transport House, 128 Theobald's Road, Holborn, LONDON WC1X 8TN. Ffôn: 020 7611 2500

Asesiadau o risg ffermydd



Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol ichi asesu'r risgiau i weithwyr ac eraill y gall eich gweithgareddau gwaith effeithio arnynt. Bydd hyn yn eich helpu i benderfynu beth sydd angen ichi ei wneud i gydymffurfio â'r gyfraith a lleihau tebygolrwydd damweiniau.

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi datblygu meddalwedd rhyngweithiol i'ch helpu i gynnal asesiad iechyd a diogelwch cynhwysfawr o'ch fferm. Ewch i www.hse.gov.uk/agriculture i gael rhagor o wybodaeth.

Er bod cyfrifoldeb arbennig ar rieni i rwystro eu plant rhag crwydro i fannau lle y gallant fod mewn perygl neu rhag tresbasu yno, cofiwch fod yn RHAID i bob oedolyn sy'n gweithio mewn amaethyddiaeth – yn gyflogwyr, gweithwyr cyflog, contractwyr neu weithwyr eraill sy'n ymweld – gymryd cyfrifoldeb dros ddiogelwch plant a phobl ifanc.

Cynhyrchwyd yr wybodaeth hon gan y sefydliadau canlynol a fu'n cydweithio mewn partneriaeth:



Undeb y Gweithwyr Cludiant a Chyffredinol
Transport House
128 Theobald's Road
LONDON WC1X 8TN
Ffôn: 020 7611 2500
www.tgwu.org.uk



Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
Agriculture House
164 Shaftesbury Avenue
LONDON WC2H 8HL
Ffôn: 020 7331 7200
www.nfuonline.com



NFU Mutual
Tiddington Road
STRATFORD UPON AVON
Warwickshire CV37 7BJ
Ffôn: 01789 204211
www.nfumutual.co.uk



ADAS
Woodthorne, Wergs Road
WOLVERHAMPTON WV6 8TQ
Ffôn: 01902 754190
www.adas.co.uk



Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Linell wybodaeth – Parc Busnes Caerffili
CAERFFILI CF83 3GG
Ffôn: 08701 545500
www.hse.gov.uk



Undeb Bwyd a Ffermio'r Menywod
National Office, Stoneleigh Park
KENILWORTH
Warwickshire CV8 2LZ
Ffôn: 02476 693171
www.wfu.org.uk




Farms for Schools
Blwch Post 27
HEBDEN BRIDGE HX7 5YZ
Ffôn: 01422 882708
www.farmsforschools.org.uk



Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd
Adeilad Morgannwg, Rhodfa'r Brenin Edward VII
CAERDYDD CF10 3WT
Ffôn: 02920 875179
www.cardiff.ac.uk/socsi

Byddwch yn gyfrifol

cadwch blant yn ddiogel ar eich fferm



**45 wedi marw
dros 400 wedi eu hanafu**

Cyflwyniad



Mae 45 o blant a phobl ifanc wedi marw a thros 400 wedi eu hanafu'n ddifrifol ar ffermydd yn y deng mlynedd diwethaf.

Trwy weithio trwy'r rhestr wirio dylai pawb sy'n ymwneud â ffermio allu helpu i rwystro damweiniau i blant a phobl ifanc.

Peryglon Cyffredinol



- ❑ Gwnewch bob person ifanc, gan gynnwys ymwelwyr, yn ymwybodol o'r ardaloedd peryglus ar y fferm. Defnyddiwch arwyddion rhybuddio i'ch helpu.
- ❑ Sefydlwch reolau ynghylch beth y caiff pobl ifanc ei wneud ar y fferm, a beth na chânt ei wneud.
- ❑ Cadwch olwg ar le y mae aelodau'r teulu'n chwarae neu'n gweithio a phryd y disgwylir iddynt ddychwelyd.
- ❑ Goruchwylwch bobl ifanc pan fyddant yn helpu ar y fferm.
- ❑ Cadwch ynnau a bwledi/cetris mewn ystafell ddiogel neu gist dan glo.
- ❑ Gwnewch yn siŵr fod cemegau a phlaladdwyr wedi eu labelu'n gywir a'u bod dan glo.

Y buarth neu'r clos a'r adeiladau allan



- ❑ Darparwch le chwarae diogel i blant i'w cadw oddi wrth dda byw, peiriannau a thraffig.
- ❑ Cynlluniwch lwybrau traffig i osgoi cerbydau sy'n bacio. Cyfeiriwch draffig oddi wrth y ffermdy. Lle bo modd, defnyddiwch system unffordd.
- ❑ Trefnwch fod gyrwyr yn gallu gweld yn glir ar gorneli a mynedfeydd. Os oes angen, gosodwch ddrychau fel bod modd gweld yn well.
- ❑ Rhybuddiwch yrwyr y gall fod plant o gwmpas. Gosodwch arwyddion rhybuddio addas.
- ❑ Cadwch y buarth neu'r clos yn glir a thaclus.
- ❑ Gorchuddiwch bob pwynt mynediad ar derydr, cludyddion a chodwyr â gardiau neu orchuddion cryf a'u gosod yn eu lle'n ddiogel.

- ❑ Gwnewch bob olwyn drom a giât yn ddiogel neu ei storio'n fflat ar y llawr.
- ❑ Pentyrrwch ddeunyddiau a nwyddau fel na fyddant yn dymchwel a gwnewch yn siŵr mai felly y byddant yn aros. Trefnwch bentyrrau mewn ffordd a fydd yn rhwystro plant rhag dringo i fannau uchel.
- ❑ Osgowch agoriadau yn ochrau teisi gwair neu wellt a allai gael eu defnyddio fel cuddfannau.
- ❑ Cadwch bob ysgol yn ddiogel i'w rhwystro rhag cael ei defnyddio heb ganiatâd.
- ❑ Cadwch storfeydd ar gau a than glo pan na fyddant yn cael eu defnyddio.
- ❑ Dadblwgwch bob offeryn a theclyn cludadwy nad yw'n cael ei ddefnyddio a'i gadw o gyrraedd pobl ifanc.

Peiriannau a cherbydau



- ❑ Gwnewch yn siŵr fod pob cerbyd, ac yn enwedig ei systemau brecio, yn cael ei gynnal a'i gadw'n iawn. Gwnewch yn siŵr fod pob drych yn lân ac wedi'i osod yn gywir. Meddyliwch am osod camerâu teledu cylch cyfyng i helpu i gael gwared ar fannau dall y gyrrwr.
- ❑ Tynnwch yr allweddi allan o beiriannau a cherbydau pan fyddant wedi eu parcio neu'n sefyll yn segur. Defnyddiwch y brêc parcio bob tro.
- ❑ Cadwch bob allwedd mewn man diogel o gyrraedd plant.
- ❑ Dewch ag offer i lawr i'r ddaear a chloi drysau cabanau wrth barcio tractorau.
- ❑ Gwnewch yn siŵr fod gardiau yn eu lle i rwystro mynd at rannau peryglus peiriannau, yn enwedig siafftiau troi agored. **Rhaid** i bob siafft peiriant trosglwyddo pŵer fod yn gyfan gwbl y tu mewn i gard cadarn.
- ❑ Peidiwch â gadael i blant a phobl ifanc chwarae ar dractorau neu beiriannau amaethyddol eraill nac yn agos atynt.
- ❑ **Ni chaiff** plant o dan 13 oed yrru na gweithredu tractorau na pheiriannau fferm eraill.
- ❑ **Ni chaiff** plant o dan 13 oed fod yn deithwyr ar dractorau, cerbydau pob tir na pheiriannau fferm eraill. Dim ond os gosodwyd sedd teithiwr a gwregys diogelwch ac os gwisgir y gwregys diogelwch y caiff plant 13 oed a throsodd deithio ar dractor.

- ❑ **Peidiwch** â chaniatáu i blant o dan 16 oed weithredu cerbyd pob tir. Os yw'r plentyn yn 16 neu drosodd **rhaid** iddo/iddi wisgo helmed addas a bod wedi ei hyfforddi'n iawn.
- ❑ Cofiwch fod yn rhaid i **bawb** fod wedi ei hyfforddi ac yn gymwys i wneud y tasgau y mae gofyn iddo/iddi eu gwneud ar fferm. Efallai y bydd yn rhaid addasu hyfforddiant i weddu i blant a phobl ifanc gan mai dim ond peth ymwybyddiaeth sydd ganddynt o risgiau a chan eu bod yn anaeddfed yn gorfforol a meddyliol.

Da byw



- ❑ Rhwystrwch blant a phobl ifanc rhag chwarae mewn ardaloedd lle mae da byw neu o'u cwmpas.
- ❑ Trefnwch oruchwyliaeth gan oedolyn pan ddaw plant i gysylltiad ag anifeiliaid fferm.
- ❑ Gwnewch yn siŵr fod pob ffens, giât a chorlan yn gadarn ac wedi ei chynnal a'i chadw'n dda.
- ❑ Gosodwch ffens ddiogel o amgylch pob pwll/lagŵn slyri i rwystro plant a phobl ifanc rhag disgyn i mewn iddo. Gwnewch yn siŵr fod cloriau bob amser ar danciau.
- ❑ Gorchuddiwch a ffensiwch bob trochfa ddefaid i rwystro plant rhag mynd i mewn iddi. **Peidiwch byth** â gadael trochfeydd defaid heb eu diogelu.
- ❑ Golchwch eich dwylo bob tro ar ôl trafod da byw.

Argyfyngau



- ❑ Gwnewch yr holl drefniadau ar gyfer galw am gymorth os bydd argyfwng. Gwnewch yn siŵr fod **pob** aelod o'r teulu'n gwybod beth i'w wneud.
- ❑ Paratowch restr o rifau ffôn argyfyngau.
- ❑ Gwnewch yn siŵr bod rhywun ar y fferm wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf sylfaenol a'i fod/bod yn gwybod sut i adfywhau os bydd angen.
- ❑ Darparwch becynnau cymorth cyntaf i drin mân anafiadau. Dylid golchi mân glwyfau â dŵr glân a rhoi gorchudd addas arnynt.